

## Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Crynodeb nyrsio anabledd dysgu

Mae angen nyrsys anabledd dysgu pryd bynnag y bydd gan unigolyn ag anabledd dysgu anghenion gofal iechyd cymhleth ac mae angen gofal a chymorth arbenigol arno. Dylid dathlu a gwerthfawrogi rôl nyrs anabledd dysgu am y rôl hynod fedrus, dosturiol ydyw.

### Beth yw nyrs anabledd dysgu a pham mae'n bwysig?

Mae nyrs anabledd dysgu yn darparu gofal iechyd a chymorth arbenigol i bobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a thimau staff. Mae gan y rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu gyflyrau hirdymor, ac mae gan 46% o bobl saith neu fwy o gyflyrau hirdymor. Mae meddyginiaeth wedi'i rhagnodi i 98% o bobl ag anabledd dysgu, a nifer cyfartalog y meddyginiaethau y mae unigolyn ag anableddau dysgu wedi'u rhagnodi yw 6.2. Gall nodi a thrin anghenion iechyd unigolyn ag anabledd dysgu gael ei gymhlethu gan anawsterau cyfathrebu, symptomau'n cael eu cyflwyno'n anarferol, a chysgodi diagnostig.

Mae angen gwybodaeth fanwl ar nyrsys anabledd dysgu am ddeddfwriaeth sy'n seiliedig ar hawliau ac mae hyn yn cynnwys cydnabod y gall y profiad o ofal i rai pobl ag anabledd dysgu y mae angen gwasanaethau gofal iechyd arnynt fod yn un o orfodaeth ac mae gan nyrsys anabledd dysgu ddyletswyddau cyfreithiol yn y cyd-destun hwn. Mae cymwyseddau presennol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi bod angen i nyrsys cofrestredig weithredu mewn modd sy'n lleihau'r anghydbwysedd pŵer rhwng y nyrs a'r defnyddiwr gwasanaeth yng nghyd-destun unigryw gofal gorfodol.

Gall nyrsys anabledd dysgu weithio mewn amgylcheddau gan gynnwys unedau diogel a sefydliadau cyfiawnder troseddol lle mae anghydbwysedd pŵer ar unwaith a all arwain rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed i fod yn agored i gamdriniaeth (Winterbourne, 2011). Mae'n hanfodol i bobl ag anabledd dysgu y mae angen gwasanaethau nyrsio arbenigol arnynt allu cael gafael ar hyn a bod yn sicr bod y sawl sy'n darparu eu gofal yn ymarferwyr cymwys cofrestredig.

O'r blynyddoedd cynnar i oedran hŷn, dylai nyrsys anabledd dysgu allu darparu gofal a chymorth i unigolyn ag anabledd dysgu a'i deulu a'i ofalwyr.

## Argymhellion

- Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod nyrsys anabledd dysgu yn rhan annatod o bob agwedd ar ofal, gan gynnwys gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Rhaid i'r byrddau Iechyd fabwysiadu dull 'dim drws anghywir' a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu lapio o amgylch yr unigolyn a'u teuluoedd. I wneud hyn, mae angen buddsoddiad sylweddol mewn nyrsio anabledd dysgu cyn ac ar ôl cofrestru.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer rheoli'r pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod byrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau'n defnyddio dull cyson o reoli pontio o 14 i 25 oed. Rhaid i nyrsys anabledd dysgu allu cefnogi unigolyn ag anabledd dysgu ar ei daith drwy'r broses hon o blentyndod i oedran hŷn.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth gywir am leoliadau y tu allan i'r ardal a'r tu allan i'r wlad yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi. Rhaid i ddarparwyr gofal annibynnol a chymdeithasol fuddsoddi mewn nyrsio anabledd dysgu er mwyn sicrhau y dylid darparu gofal yn nes at adref.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio deall effaith pandemig COVID-19 ar bobl ag anabledd dysgu a sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol posibl y pandemig yn cael eu lliniaru a bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu hystyried mewn cynlluniau ar gyfer 'byw â Covid' ac adfer.
- Rhaid i GIG Cymru sicrhau bod y fframwaith addysgol anabledd dysgu ar gyfer staff gofal Iechyd yng Nghymru, a ddatblygwyd gan Gwelliant Cymru a Phrifysgol De Cymru er cof am Paul Ridd, yn cael ei weithredu'n llawn ac yn gyson ar draws y GIG.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o nyrsys anabledd dysgu yng Nghymru i roi cymorth i bobl drwy gydol eu hoes gan gynnwys: blynyddoedd cynnar, gwasanaethau plant a'r glasoed, gwasanaethau i oedolion, pobl hŷn a gofal diwedd oes. Rhaid i hyn gynnwys cynyddu nyrsio anabledd dysgu cyn cofrestru ac addysg nyrsio ôl-gofrestru.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru o leiaf un nyrs ymgynghorol anabledd dysgu. Rhaid i Fyrddau Iechyd, darparwyr addysg uwch, darparwyr gofal cymdeithasol ac annibynnol hefyd sicrhau bod ganddynt lwybr i nyrsys anabledd dysgu symud ymlaen yn eu gyrfaedd.
- Rhaid i GIG Cymru a chyflogwyr hwyluso amser i nyrsys astudio, rhaid i AaGIC gomisiynu addysg nyrsio ôl-gofrestru a rhaid i brifysgolion sefydlu cyrsiau nyrsys ymgynghorol anabledd dysgu a nyrsio uwch.
- Rhaid i ofal fod ar gael i'w ddarparu yn Gymraeg. Rhaid i GIG Cymru sicrhau bod y maes Iaith Gymraeg ar Gofnod Staff Electronig y GIG yn orfodol a rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r data hwn er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gynllunio a'i ddarparu'n effeithiol yn Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad llawn